# Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr

Gweithdrefn 01: 2019 Fersiwn 1.4
Daw i rym: 1 Chwefror 2021

---

| Dyddiad | Yn Disodli | |
|---|---|---|
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 1.3 | Mân newidiadau i deitlau swyddi. |
| 1 Chwefror 2021 | 2019 Fersiwn 1.2 | Mân newidiadau i amserlenni. |
| 1 Ebrill 2020 | 2019 Fersiwn 1.1 | I sicrhau y bydd staff a all oruchwylio'r drefn gwynion ffurfiol ar gael, mae'r Dirprwy i'r Is-ganghellor wedi cael ei gynnwys yn rhan o'r weithdrefn hon. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau | | | |

- I gwyno am ymddygiad myfyriwr arall. (Dylid cyfeirio'r cwynion hynny at y Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu dan Reoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol).
- I gwyno am ymddygiad aelod staff pan nad oes cysylltiad â gwaith neu brofiad academaidd y myfyriwr. (Rhaid cyfeirio'r cwynion hynny at y Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu yn y lle cyntaf i benderfynu a ddylid cyfeirio'r gŵyn at yr adran Adnoddau Dynol).
- I apelio yn erbyn canlyniadau asesiad academaidd, yn erbyn penderfyniad ar gynnydd academaidd, neu yng nghyswllt cymhwyster terfynol. (Dylid defnyddio'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd).

5. Nod y Weithdrefn hon yw datrys cwynion yn anffurfiol. Yn aml gellir datrys pryderon yn anffurfiol os cânt eu codi mewn

12. Yn ystod unrhyw gam o'r Weithdrefn hon, gall staff sy'n ymwneud â chŵyn benderfynu ei bod yn briodol ceisio datrys y pryderon drwy gyfryngu. Rhaid cael cytundeb pawb sy'n gysylltiedig â'r gŵyn cyn y gellir bwrw ymlaen â chyfryngu o'r fath. Mae'r broses gyfryngu'n golygu "camu o'r neilltu" oddi wrth y Weithdrefn mewn ymgais i ddatrys y mater mewn modd derbyniol. Caiff y Weithdrefn ei gohirio tra bydd y cyfryngu'n mynd rhagddo. Bydd cyfryngu llwyddiannus yn arwain at sefyllfa lle mae'r holl bartïon yn cytuno ar ffordd ymlaen a chedwir cofnod o'r cytundeb y daethpwyd iddo. Os na fydd y cyfryngu'n llwyddiannus, rhaid ailafael yn y Weithdrefn o'r fan lle cafodd ei 'gohirio'.

## Prosesau datrys anffurfiol

13. Dylid trafod pryderon yn y lle cyntaf gydag aelod staff sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth (e.e. rhaglen, modiwl neu wasanaeth arall). Neu gellir trafod y pryderon gyda'r Tiwtor Personol neu'r Uwch Diwtor. Gellir codi pryderon cyffredinol trwy Bwyllgor Staff a Myfyrwyr yr Ysgol. Dylid cyflwyno'r cwynion ar ffurf ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir y bydd y sawl sy'n derbyn y gŵyn yn

I ddod â chwyn gerbron yr OIA, mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Gwyno'r OIA a honno wedi'i chwblhau cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at yr OIA.